CIWB

**Tasg 1**

# Anifail doniol

1. Edrychwch yn ofalus ar y lluniau. Beth sy yn y lluniau?
Disgrifiwch y lluniau.


| | |
|---|---|
| Cofiwch: | ’n + ansoddair = treiglad meddal<br>yn + ansoddair = treiglad meddal<br><br>Mae’r ... yn binc.<br>Mae’r ... yn fawr. |


**Hefyd – De Cymru:**

| | |
|---|---|
| Mae pen mawr gyda’r ...<br>Mae clustiau bach gyda’r ...<br>Mae cynffon hir gyda’r ... | The ... has a large head.<br>The ... has small ears.<br>The ... has a long tail. |

**Hefyd – Gogledd Cymru:**

| | |
|---|---|
| Mae gan y ... ben mawr.<br>Mae gan y ... glustiau bach.<br>Mae gan y ... gynffon hir. | The ... has a large head.<br>The ... has small ears.<br>The ... has a long tail. |




| Geirfa | |
|---|---|
| ansoddair | adjective |

2. Mae’r sŵ’n chwilio am anifeiliaid doniol newydd.

   Ar ddarn o bapur, cynlluniwch anifail doniol. Lliwiwch yr anifail yn ddoniol hefyd.

3. Ysgrifennwch ddisgrifiad o’r anifail.

4. Disgrifiwch yr anifail i’ch partner chi. Peidiwch dangos eich llun chi.
   Rhaid i’ch partner chi wrando’n ofalus er mwyn tynnu llun eich anifail chi.
   Cymharwch y lluniau.

Mae’r anifail yn ...

**Mae ... gyda’r anifail.**
**(De Cymru)**

**Mae gan yr anifail ...**
**(Gogledd Cymru)**

| Geirfa | |
|---|---|
| chwilio am | to look for |
| cynllunio | to design |
| disgrifiad | description |
| tynnu llun | to draw |
| cymharu | to compare |